OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 709 (Cy. 122)

2025 No. 709 (W. 122)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

REPRESENTATION OF THE PEOPLE

SENEDD CYMRU

SENEDD CYMRU

Rheoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025

The Senedd Cymru Constituency Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Cyhoeddwyd penderfyniadau terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") mewn cysylltiad â threfniadau etholiadol ar gyfer etholaethau'r Senedd ar 11 Mawrth 2025. Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi effaith i'r penderfyniadau hynny, yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru a nodir ym mharagraff 9(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024.

Mae adroddiad y Comisiwn yn pennu'r 16 o etholaethau'r Senedd sy'n cynnwys parau penodol o etholaethau seneddol y DU, yn unol â dyletswyddau'r Comisiwn o dan baragraffau 2 ac 8 o Atodlen 2 i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2024").

Gosododd Gweinidogion Cymru adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd, yn unol â pharagraff 8(5) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 ar 11 Mawrth 2025.

Ni fydd rheoliadau a wneir yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru fel y nodir ym mharagraff 9(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn effeithio ar ddychwelyd Aelod i'r Senedd hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyntaf i gael ei gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026 yn rhinwedd paragraff 9(8) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The final determinations of the Democracy and Boundary Commission Cymru ("the Commission") in respect of electoral arrangements for Senedd constituencies were published on 11 March 2025. These Regulations give effect to those determinations, in accordance with the Welsh Ministers' powers, which are set out in paragraph 9(1) of Schedule 2 to the 2024 Act.

The Commission's report determines the 16 Senedd constituencies made up of specific pairings of UK parliamentary constituencies, in keeping with the Commission's duties under paragraph 2 and 8 of Schedule 2 to the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 ("the 2024 Act").

The Welsh Ministers laid the Commission's report before the Senedd, in accordance with paragraph 8(5) of Schedule 2 to the 2024 Act on 11 March 2025.

Regulations made in accordance with the Welsh Ministers' powers as set out in paragraph 9(1) of Schedule 2 to the 2024 Act will not affect the return of a Member to the Senedd until the dissolution of the Senedd in connection with the first general election to be held after 6 April 2026 by virtue of paragraph 9(8) of Schedule 2 to the 2024 Act.

Mae paragraff 9(7) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn gael eu gosod gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gwneud.

Paragraph 9(7) of Schedule 2 to the 2024 Act requires these Regulations to be laid before the Senedd as soon as is reasonably practicable after the regulations are made.

Mae rheoliad 1 yn nodi enw a dyddiad dod i rym y Rheoliadau hyn. Mae'r darpariaethau cychwyn yn rhoi effaith i ofynion paragraff 9(8) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024.

Regulation 1 sets out the title and coming into force of these Regulations. The commencement provisions give effect to the requirements of paragraph 9(8) of Schedule 2 to the 2024 Act.

Mae rheoliad 2 yn cynnwys darpariaethau dehongli ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Regulation 2 contains interpretation provisions for these Regulations.

Mae rheoliad 3 yn dirymu dau Orchymyn: Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1041) a Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2011 (O.S. 2011/2987). Mae'r dirymiadau hyn yn cael yr effaith o ddiddymu etholaethau blaenorol y Senedd.

Regulation 3 revokes two Orders: the Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) Order 2006 (S.I. 2006/1041) and The Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) (Amendment) Order 2011 (S.I. 2011/2987). These revocations have the effect of abolishing the previous Senedd constituencies.

Mae rheoliad 4 yn nodi ac yn disgrifio etholaethau'r Senedd y mae Cymru bellach wedi ei rhannu ynddynt.

Regulation 4 sets out and describes the Senedd constituencies into which Wales is now divided.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i bob swyddog cofrestru etholiadol aildrefnu neu addasu'r gofrestr etholwyr fel sy'n angenrheidiol i roi effaith i'r Rheoliadau hyn.

Regulation 5 requires each electoral registration officer to re-arrange or adapt the register of electors as necessary to give effect to these Regulations.

Mae'r Atodlen yn cynnwys enwau, dynodiadau a chyfansoddiad etholaethau'r Senedd.

The Schedule contains the names, designations and composition of the Senedd constituencies.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 709 (Cy. 122)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

SENEDD CYMRU

Rheoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025

Gwnaed	*16 Mehefin 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*19 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*18 Gorffennaf 2025*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru(**1**) ("y Comisiwn") wedi cynnal adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd, o dan y darpariaethau ar gyfer etholaethau'r Senedd a nodir ym mharagraffau 1 i 5 o Atodlen 2 i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024(**2**) ("Deddf 2024").

Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno adroddiad terfynol dyddiedig 11 Mawrth 2025 i Weinidogion Cymru, o dan baragraffau 2(2) ac 8(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024, sy'n cynnwys ei benderfyniadau ar gyfer enwi, cyfansoddiad a dynodiad etholaethau'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl gosod yr adroddiad gerbron y Senedd ar 11 Mawrth 2025 fel sy'n ofynnol gan baragraff 8(5) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024, yn

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ac Atodlen 2 iddi, a ailenwyd yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4) ("Deddf 2024") (gweler adran 11(1)). Newidiodd Deddf 2013 enw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae Deddf 2024 yn newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (gweler adran 12).

(**2**) 2024 (dsc 4)

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 No. 709 (W. 122)

REPRESENTATION OF THE PEOPLE

SENEDD CYMRU

The Senedd Cymru Constituency Regulations 2025

Made	*16 June 2025*
Laid before Senedd Cymru	*19 June 2025*
Coming into force	*18 July 2025*

The Democracy and Boundary Commission Cymru(**1**) ("the Commission") has conducted a boundary review of the Senedd constituencies, under the provisions for Senedd constituencies set out in paragraphs 1 to 5 of Schedule 2 to the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024(**2**) ("the 2024 Act").

The Commission has submitted a final report dated 11 March 2025 to the Welsh Ministers, under paragraphs 2(2) and 8(1) of Schedule 2 to the 2024 Act, containing its determinations for the naming, composition and designation of the Senedd constituencies.

The Welsh Ministers, having laid the report before the Senedd on 11 March 2025 as required by paragraph 8(5) of Schedule 2 to the 2024 Act, make these

(**1**) The Local Government Boundary Commission for Wales was established by section 53 of, and Schedule 8 to, the Local Government Act 1972 (c. 70). Section 53 and Schedule 8 were repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) which was renamed as the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 ("the 2013 Act"), by the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4) ("the 2024 Act") (see section 11(1)). The 2013 Act re-named the Local Government Boundary Commission for Wales as the Local Democracy and Boundary Commission for Wales. The 2024 Act re-names the Local Democracy and Boundary Commission for Wales as the Democracy and Boundary Commission Cymru (see section 12).

(**2**) 2024 asc 4.

gwneud y Rheoliadau hyn i roi effaith i benderfyniadau'r Comisiwn yn unol â'r pwerau a roddir iddynt gan baragraff 9(1), (5) a (6) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Gorffennaf 2025.

(3) Er bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym o dan baragraff 1(2), nid ydynt yn cael effaith mewn perthynas ag etholiad cyffredinol y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar neu cyn 6 Ebrill 2026.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "etholiad cyffredinol" yw etholiad cyffredinol cyffredin, neu etholiad cyffredinol eithriadol, a gynhelir o dan Ran 1 o Ddeddf 2006.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**);

ystyr "etholaethau'r Senedd" ("*Senedd constituencies*") yw'r etholaethau a ddiffinnir yn y tabl yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, sy'n dychwelyd Aelod o'r Senedd fel y pennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2006;

mae i "Senedd" yr un ystyr â "Senedd" yn adran 1(1) o Ddeddf 2006.

Dirymu

3. Mae'r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006(**2**), a

(b) Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2011(**3**).

Regulations to give effect to the Commission's determinations in keeping with the powers given to them by paragraph 9(1), (5) and (6) of Schedule 2 to the 2024 Act.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Senedd Cymru Constituency Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 18 July 2025.

(3) Despite the coming into force of these Regulations under regulation 1(2), they do not have effect in relation to a general election the poll for which is held on or before 6 April 2026.

(4) In this regulation—

"general election" means an ordinary general election, or an extraordinary general election, held under Part 1 of the 2006 Act.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 2006 Act" ("*Deddf 2006*") means the Government of Wales Act 2006(**1**);

"Senedd" ("*Senedd*") has the same meaning as in section 1(1) of the 2006 Act;

"Senedd constituencies" ("*etholaethau'r Senedd*") means the constituencies defined in the table in the Schedule to these Regulations, which return a Senedd Member as specified in Part 1 of the 2006 Act.

Revocations

3. The following Orders are revoked—

(a) the Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) Order 2006(**2**), and

(b) the Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) (Amendment) Order 2011(**3**).

(**1**) 2006 p. 32. Gwneir diwygiadau perthnasol gan adrannau 2(1) a 25(2)(a) (gydag adran 24(1)) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4).

(**2**) O.S. 2006/1041. Diwygiwyd y Gorchymyn hwn gan Orchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2008 (O.S. 2008/1791) (a ddirymwyd gan Orchymyn Etholaethau Seneddol 2023 (O.S. 2023/1230)). Fe'i diwygiwyd hefyd gan Orchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2011 (O.S. 2011/2987) a Gorchymyn Etholaethau Seneddol 2023 (O.S. 2023/1230).

(**3**) O.S. 2011/2987.

(**1**) 2006 c. 32. Relevant amendments are made by the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4), sections 2(1), and 25(2)(a) (with section 24(1)).

(**2**) S.I. 2006/1041. This Order was amended by the Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) (Amendment) Order 2008 (S.I. 2008/1791 (which was revoked by the Parliamentary Constituencies Order 2023 (S.I. 2023/1230)). It was also amended by the Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) (Amendment) Order 2011 (S.I. 2011/2987) and the Parliamentary Constituencies Order 2023 (S.I. 2023/1230).

(**3**) S.I. 2011/2987.

Etholaethau'r Senedd

4.—(1) Mae Cymru wedi ei rhannu yn etholaethau'r Senedd—

(a) a enwir yng ngholofn 1 o'r tabl yn yr Atodlen,

(b) a ddynodir yn etholaethau sirol neu'n etholaethau bwrdeistrefol yn y golofn honno, ac

(c) sy'n cynnwys etholaethau seneddol y DU a nodir yng ngholofnau 2 a 3 o'r tabl hwnnw, gyferbyn ag enw'r etholaeth yng ngholofn 1(**1**).

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "etholaeth seneddol y DU" ("*UK parliamentary constituency*") yw etholaeth seneddol y Deyrnas Unedig a grëwyd gan Orchymyn Etholaethau Seneddol 2023(**2**) ("Gorchymyn 2023"), sy'n dychwelyd aelod o Senedd y Deyrnas Unedig, gan ddiystyru effaith weithredol unrhyw ddiwygiadau neu addasiadau i Orchymyn 2023 ar ôl y dyddiad y gwneir y Rheoliadau hyn.

Cofrestrau Etholiadol

5. Rhaid i bob swyddog cofrestru etholiadol(**3**) aildrefnu neu addasu'r gofrestr etholwyr llywodraeth leol a gynhelir o dan adran 9(1)(b)(**4**) a (5A)(**5**) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**6**), fel sy'n ofynnol i roi effaith i'r Rheoliadau hyn.

Senedd Constituencies

4.—(1) Wales is divided into Senedd constituencies—

(a) which are named in column 1 of the table in the Schedule,

(b) which are designated as county or borough constituencies in that column, and

(c) which comprise the UK parliamentary constituencies which are set out in columns 2 and 3 of that table, opposite the name of the constituency in column 1(**1**).

(2) In this regulation—

"UK parliamentary constituency" ("*etholaeth seneddol y DU*") means a United Kingdom parliamentary constituency created by the Parliamentary Constituencies Order 2023(**2**) ("the 2023 Order"), which returns a member of Parliament of the United Kingdom, disregarding the operative effect of any amendments or alterations to the 2023 Order after the date on which these Regulations are made.

Electoral Registers

5. Each electoral registration officer(**3**) must re-arrange or adapt the register of local government electors maintained under section 9(1)(b)(**4**) and (5A)(**5**) of the Representation of People Act 1983(**6**), as required to give effect to these Regulations.

Jayne Bryant

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
16 Mehefin 2025

Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
16 June 2025

(**1**) Mae mapiau o'r etholaethau unigol y penderfynodd y Comisiwn y dylid rhannu Cymru ynddynt ar gael yn Adolygiad 2026: Penderfyniadau Terfynol | CDFfC (https://www.cdffc.llyw.cymru/arolygon/03-25/2026-review-final-decisions)

(**2**) O.S. 2023/1230.

(**3**) Fel y'i penodir yn unol ag adran 8(2A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2). Diwygiwyd adran 8 gan adran 66(6) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 68(1) o Atodlen 16 iddi i fewnosod darpariaethau ynghylch penodi swyddogion cofrestru etholiadol yng Nghymru.

(**4**) Diwygiwyd y ddarpariaeth hon gan adran 8(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi.

(**5**) Mewnosodwyd adran 9(5A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 gan adran 23 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol gynnal cofnodion penodol o etholwyr sy'n 16 oed neu'n 17 oed.

(**6**) 1983 p. 2.

(**1**) Maps of the individual constituencies into which the Commission determined that Wales should be divided are available at 2026 Review: Final Determinations | DBCC (https://www.dbcc.gov.wales/reviews/03-25/2026-review-final-determinations)

(**2**) S.I. 2023/1230.

(**3**) As appointed in accordance with section 8(2A) of the Representation of the People Act 1983 (c. 2). Section 8 was amended by section 66(6) and (8) and paragraph 68(1) of Schedule 16 to the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19) to insert provisions regarding the appointment of electoral registration officers in Wales.

(**4**) This provision was amended by section 8(a) and paragraph 3 of Schedule 1 to the Representation of the People Act 2000 (c. 2).

(**5**) Section 9(5A) of the Representation of the People Act 1983 was inserted by section 23 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1) and requires electoral registration officers to maintain specific records of electors aged 16 or 17.

(**6**) 1983 c. 2.

YR ATODLEN Rheoliad 4

Enw, dynodiad a chyfansoddiad etholaethau'r Senedd

Tabl 1

Enw etholaethau'r Senedd	*Etholaethau seneddol y DU*	
	Etholaeth 1	*Etholaeth 2*
Bangor Conwy Môn *Etholaeth Sirol*	Bangor Aberconwy	Ynys Môn
Clwyd *Etholaeth Sirol*	Dwyrain Clwyd	Gogledd Clwyd
Fflint Wrecsam *Etholaeth Sirol*	Alun a Glannau Dyfrdwy	Wrecsam
Gwynedd Maldwyn *Etholaeth Sirol*	Dwyfor Meirionnydd	Maldwyn a Glyndŵr
Ceredigion Penfro *Etholaeth Sirol*	Ceredigion Preseli	Canol a De Sir Benfro
Sir Gaerfyrddin *Etholaeth Sirol*	Caerfyrddin	Llanelli
Gŵyr Abertawe *Etholaeth Sirol*	Gŵyr	Gorllewin Abertawe
Brycheiniog Tawe Nedd *Etholaeth Sirol*	Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe	Castell-nedd a Dwyrain Abertawe
Afan Ogwr Rhondda *Etholaeth Sirol*	Aberafan Maesteg	Rhondda ac Ogwr
Pontypridd Cynon Merthyr *Etholaeth Sirol*	Merthyr Tudful ac Aberdâr	Pontypridd

SCHEDULE Regulation 4

Name, designation and composition of Senedd constituencies

Table 1

Name of Senedd constituencies	*UK parliamentary constituencies*	
	Constituency 1	*Constituency 2*
Bangor Conwy Môn *County Constituency*	Bangor Aberconwy	Ynys Môn
Clwyd *County Constituency*	Clwyd East	Clwyd North
Fflint Wrecsam *County Constituency*	Alyn and Deeside	Wrexham
Gwynedd Maldwyn *County Constituency*	Dwyfor Meirionnydd	Montgomeryshire and Glyndŵr
Ceredigion Penfro *County Constituency*	Ceredigion Preseli	Mid and South Pembrokeshire
Sir Gaerfyrddin *County Constituency*	Caerfyrddin	Llanelli
Gŵyr Abertawe *County Constituency*	Gower	Swansea West
Brycheiniog Tawe Nedd *County Constituency*	Brecon, Radnor and Cwm Tawe	Neath and Swansea East
Afan Ogwr Rhondda *County Constituency*	Aberafan Maesteg	Rhondda and Ogmore
Pontypridd Cynon Merthyr *County Constituency*	Merthyr Tydfil and Aberdare	Pontypridd

Blaenau Gwent Caerffili Rhymni *Etholaeth Sirol*	Blaenau Gwent a Rhymni	Caerffili	Blaenau Gwent Caerffili Rhymni *County Constituency*	Blaenau Gwent and Rhymney	Caerphilly
Syr Fynwy Torfaen *Etholaeth Sirol*	Sir Fynwy	Torfaen	Sir Fynwy Torfaen *County Constituency*	Monmouthshire	Torfaen
Casnewydd Islwyn *Etholaeth Sirol*	Dwyrain Casnewydd	Gorllewin Casnewydd ac Islwyn	Casnewydd Islwyn *County Constituency*	Newport East	Newport West and Islwyn
Caerdydd Penarth *Etholaeth Sirol*	Gorllewin Caerdydd	De Caerdydd a Phenarth	Caerdydd Penarth *County Constituency*	Cardiff West	Cardiff South and Penarth
Caerdydd Ffynnon Taf *Etholaeth Sirol*	Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	Caerdydd Ffynnon Taf *County Constituency*	Cardiff North	Cardiff East
Pen-y-bont Bro Morgannwg *Etholaeth Sirol*	Pen-y-bont ar Ogwr	Bro Morgannwg	Pen-y-bont Bro Morgannwg *County Constituency*	Bridgend	Vale of Glamorgan

©ⓑHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39703-1

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/709

9 780348 397031